**16.1.23**

Annwyl Bwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol,

Diolch am y cyfle i rannu tystiolaeth ar oblygiadau data y Cyfrifiad i'r fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi'r Ddarpariaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

Cyflwynir yr ymateb hyn ar ran Cyngor Sir Gâr. Yn amlwg mae canlyniadau diweddar Cyfrifiad 2021 wedi bod yn siom ac mae tipyn o waith i'w wneud er mwyn dadansoddi'r canlyniadau sydd, ac i'w cyhoeddi.

Mae angen dealltwriaeth o'r carfannau poblogaeth a'r lleoliadau daearyddol sydd wedi eu heffeithio fwyaf, er mwyn ystyried pa ffactorau sydd wedi cyfrannu at hynny a datblygu ymyraethau bydd yn mynd i'r afael â'r sefyllfa. Bydd yn holl bwysig i ni fel Cyngor i gydweithio gyda'r rhanddeiliaid niferus gall gyfrannu at ymateb i'r sefyllfa ac yn amlwg, bydd Llywodraeth Cymru yn un o'r rhanddeiliaid allweddol hynny.

**Pa heriau y mae'r gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn eu hachosi i ddarpariaeth awdurdodau lleol o ran y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg?**

- Mae'r gostyngiad yn rhoi cyfle i'r rhai sydd ddim yn gefnogol o'r CSyGMA i gwestiynu gwerth ac i herio'r polisi o greu dysgwyr dwyieithog. Bydd angen gwrth weithio hyn gan ddefnyddio ffigyrau'r Cyfrifiad fel cyfiawnhad pellach i ddyfalbarhau gyda'r cynlluniau ar draws Cymru gyfan a chyfleu negeseuon positif am addysg Gymraeg yn genedlaethol.

- Mewn sefyllfa o gynnu ariannol, mae risg y bydd y cyhoedd yn codi cwestiwn am werth am arian hyrwyddo'r Gymraeg/dwyieithrwydd sy'n rhan o'n CSyGMA.

- O ran cynlluniau i symud ysgolion ar hyd y continwwm ieithyddol - gellir defnyddio'r cwymp yn niferoedd fel dadl yn erbyn yr angen am symud darpariaeth ar hyd y continwwm.

- Mae cwymp yng % y boblogaeth 0-14 oed yn ffactor ehangach o ran lleihad posib mewn ysgolion bach, sy'n dueddol o fod yn rhai cyfrwng Cymraeg. Rhaid ystyried a ydy hyn yn creu ansicrwydd o ran cynaliadwyedd ysgolion o'r fath?

- Er hynny, mae lwyddiant addysg Gymraeg y sir yn golygu fod y Gymraeg yn dal ei thir yn gymharol dda yn yr oed iau. Bydd angen adeiladu ar hyn a pharhau i'r un cyfeiriad os am effeithio'n gadarnhaol ar niferoedd a defnydd y Gymraeg yn y sir i'r dyfodol.

Cynghorydd | Councillor
**Darren Price**
Arweinydd y Cyngor | Leader of the Council

01267 224050
DaPrice@sirgar.gov.uk | DAPrice@carmarthenshire.gov.uk
sirgar.llyw.cymru | carmarthenshire.gov.wales

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

**Pa heriau sydd o'n blaenau wrth gynllunio a datblygu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yng ngoleuni data'r Cyfrifiad, ac yn fwy penodol, yr her o sicrhau bod disgyblion yn y sector cyfrwng Saesneg yn rhugl wrth iddynt adael yr ysgol?**

- Bu cynnydd yn % y boblogaeth yn Sir Gâr sydd wedi eu geni y tu allan i Gymru (angen dadansoddi pellach ond deallwn bod hyn yn bennaf ymhlith y to hŷn). Gall hyn effeithio ar iaith aelwydydd a chreu gofynion ychwanegol o ran hwyrddyfodiaid – mewnlifiad yn sicr yn her i rai ysgolion ac yn herio capasiti ein canolfannau iaith. Bydd angen cryfhau ymdrechion i gymhathu mewnfudwyr ac annog / hwyluso mynediad hwyrach i bobl ifanc i addysg Gymraeg.

- Bydd angen ystyriaeth ddwys o'r disgwyliad i ddisgyblion yn y sector cyfrwng Saesneg i fod yn rhugl wrth iddynt adael yr ysgol. Mae'n nod yn ein CySGMA i bob dysgwr adael y sector gynradd yn ddwyieithog ond rydym yn ymwybodol nad yw rhai ysgolion Saesneg yn gwneud yr isafswm o ran gwersi Cymraeg a bydd her pellach wrth ail-gategoreiddio.

- Gellid colli cefnogaeth carfan o rieni a fydd yn cwestiynu gwerth y Gymraeg ac efallai am hyrwyddo dysgu iaith arall.

**Pa ystyriaethau ariannu a allai fod yn angenrheidiol yn y dyfodol i gefnogi datblygiad y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn llawn, o ystyried y gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg?**

- Mae angen cefnogaeth ariannol i gynnal model staffio wrth i Ysgolion/ffrydiau Cymraeg sefydlu/datblygu ac yn benodol os y bydd y rhifau yn fach i ddechrau ond wedyn yn cynyddu.

- Mae angen cynyddu'r adnodd mewn awdurdod lleol i gefnogi dysgwyr/Ysgolion/y broses wrth gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg.

- Mae angen cefnogaeth i ddatblygu sgiliau iaith staff dysgu a cynorthwyol er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg – mae cyllid penodol i gefnogi hyfforddiant penodol yn hanfodol ar gyfer cynnal strategaeth hyfforddi gynhwysfawr ac effeithiol.

- Yr angen i greu capasiti er mwyn ymateb i'r her fel system gyfan – mae angen cryfhau'r cyswllt a normaleiddio'r Gymraeg yn y cyfnod cyn-ysgol er mwyn cefnogi bwriad y cynllun ac yna datblygu'r gefnogaeth i hybu'r defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol er mwyn normaleiddio iaith y dosbarth fel iaith y gymuned. Mae cynyddu capasiti a hyder yn y sector Blynyddoedd Cynnar hefyd yn allweddol i hyn.

Gobeithiwn fod y wybodaeth yma o ddefnydd – croeso i chi gysylltu os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach.

Yn ddiffuant,

Darren Price

Cynghorydd | Councillor
**Darren Price**
Arweinydd y Cyngor | Leader of the Council

01267 224050
DaPrice@sirgar.gov.uk | DAPrice@carmarthenshire.gov.uk
sirgar.llyw.cymru | carmarthenshire.gov.wales